



CYMDEITHAS
DEFAID MYNYDD
CYMREIG



welshmountainsheep.cymru



Defaid Mynydd Cymreig / Welsh Mountain Sheep

DIWRNOD AGORED CYMDEITHAS DEFAID MYNYDD CYMREIG

Dydd Sadwrn 19 Medi 2026 | 1.00 yp Fferm Moelgolomen, Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5DW

Mae Cangen Ceredigion Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig yn estyn croeso cynnes i Ddiwrnod Agored 2026 yn Moelgolomen, trwy ganiatâd caredig deulu Simon a Rhodri Lloyd-Williams.

Mae Moelgolomen yn fferm fynydd adnabyddus yn mynyddoedd Cambrian, lle mae defaid Mynydd Cymreig wedi'u cofnodi'n ar berfformiad (EBV's) ers dros trideg mlynedd. Mae'r ddiadell gyda 650 o fogau yn cael ei rheoli ar system helaeth, fewnbwn isel, gan gynhyrchu stoc bridio o safon ac arddangos caledwch, effeithlonrwydd ac addasrwydd y Ddafad Fynydd Gymreig – brîd sydd wedi bod yn sylfaen i ffermio mynydd Cymru ers cenedlaethau. Mae dros hanner y fferm ar borfa fynyddig sydd heb ei wella, ac felly mae cadw mamog wydn all gynhyrchu ŵyn o system gynaliadwy, mewnbwn isel, yn hanfodol.

Mae'r ddiadell yn un fasnachol sy'n wyna allan; mae'r holl famogiaid yn cael eu bridio ar y fferm, a dim ond hyrddod bridio sy'n cael eu prynu o'r tu allan. Caiff mamogiaid drafft ac ŵyn benyw dros ben eu gwerthu o'r fferm, a chaiff hyrddod blwydd eu gwerthu'n flynyddol yn yr arwerthiant hyrddod Mynydd Cymreig yn Aberystwyth.

Mae'r teulu Lloyd-Williams yn ffocysu'n gryf ar uchafu perfformiad ar borfa yn unig. Mae'r ŵyn nad ydynt yn cael eu cadw i fridio yn cael eu gwerthu'n dew, a'r nod yw lleihau'r amser a gymerir i gyrraedd pwysau gwerthu, a gwella graddau cydffurfiad tra'n cadw maint ac anghenion gofal y mamogiaid. O ganlyniad, mae dethol yn ôl twf ŵyn, dyfnder cyhyr a chydffurfiad carcass yn cyd-fynd â dethol yn ôl nodweddion mamol yn y mamogiaid er mwyn sicrhau twf a goroesiad ŵyn.

Dros y gaeaf, mae'r amodau ar y mynydd yn golygu fod gorchudd braster a Sgôr Cyflwr Corff da yn hanfodol, gan wella goroesiad mamogiaid dros y gaeaf a sicrhau'r gallu i ddarparu llaeth digonol yn y Gwanwyn, ac o ganlyniad, gwella goroesiad ŵyn. Maent hefyd wedi darganfod fod y ganran wyna wedi cynyddu o ganlyniad, er nad ydynt wedi dethol yn benodol i gael cyfradd uwch o efeilliaid.

Mae'r teulu wedi ymrwymo i ffermio mewn perthynas agos â natur drwy reolaeth organig, pori cadwraethol, cynlluniau amaeth-amgylcheddol a gwella perfformiad y ddiadell yn barhaus. Yn aelodau o ProHill heddiw, maent wedi chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo ffermio mynydd cynaliadwy a gwerth defaid Mynydd Cymreig sydd wedi'u cofnodi.

Bydd y Diwrnod Agored yn gyfle gwych i ymweld ag un o ddiadelloedd Mynydd Cymreig, clywed am reolaeth y fferm, trafod bridio a chofnodi perfformiad, a chwrdd i fyny a bridwyr eraill

P'un a ydych yn fridiwr profiadol neu'n newydd i'r brîd, edrychwn ymlaen at eich croesawu i brynhawn difyr ac addysgiadol i ddathlu un o fridiau brodorol pwysicaf Cymru.

Darperir lluniaeth ysgafn.

Cyfarwyddiadau:

I gyrraedd Moelgolomen, trowch i'r chwith wrth y Black Lion yn Nhalybont (neu i'r dde os yn dod o gyfeiriad Aberystwyth) a dilynwch y ffordd gul i fyny tuag at Bontgoch am tua ddwy filltir. Just cyn bocs teleffon trowch i'r chwith lan rhewl weddol serth efo arwyddion pren am Ty'r Onnen a Ty'r Derw. Ma Moelgolomen ar y chwith ar ol filltir.

W3W - ///cydweithwyr.gaeaf.tangnefedd



WELSH MOUNTAIN SHEEP SOCIETY OPEN DAY

Saturday 19 September 2026 | 1.00 pm Moelgolomen Farm, Talybont, Ceredigion, SY24 5DW

The Welsh Mountain Sheep Society warmly invites members and guests to our 2026 Open Day at **Moelgolomen Farm**, by kind permission of **Simon and Rhodri Lloyd-Williams and family**.

Moelgolomen is a well-known upland farm in the Cambrian Mountains, where hardy Welsh Mountain sheep have been bred and performance recorded for over thirty years. The flock of around 650 ewes is managed on an extensive, low-input system, producing quality breeding stock while demonstrating the resilience, efficiency and adaptability that have made the Welsh Mountain breed the foundation of hill farming throughout Wales. More than half of the farm is made up of unimproved hill pasture, therefore keeping a hardy ewe which can produce lambs from a sustainable, low input system is crucial.

The flock is run commercially and lamb outside, replacement ewes are all home bred with only breeding rams bought in. Draft ewes and surplus ewe lambs are sold off farm and yearling rams sold annually at the Welsh Mountain sale in Aberystwyth.

The Lloyd-Williams' focus strongly in maximising performance from grass alone. Lambs not retained for breeding are sold fat and the aim is to reduce the time taken to reach sale weight and improve conformation grades while maintaining ewe size and maintenance requirements. Therefore, selection for lamb growth, muscle depth and carcass conformation ties in with maternal selection in the females for lamb growth and survival.

Over winter, the conditions on the hill mean that good fat cover and Body Condition Score is essential, improving ewe survival over winter and ensuring good milking ability in Spring and subsequently improving lamb survival. They have also found that the lambing percentage has increased as a result although they have not specifically selected for a higher twin rate.

The family are committed to farming in harmony with nature through organic management, conservation grazing, agri-environmental schemes and continual improvements in flock performance. They are active members of ProHill, they have helped promote sustainable hill farming and the value of performance-recorded Welsh Mountain sheep for the future of the industry.

This Open Day offers an excellent opportunity to visit one of Wales' Welsh Mountain flocks, hear about the management of the farm, discuss breeding and performance recording, and meet up with fellow breeders.

Whether you are a long-standing breeder or new to the breed, we look forward to welcoming you for an enjoyable and informative afternoon celebrating one of Wales' most iconic native sheep breeds.

Light refreshments will be provided.

Directions;

To reach Moelgolomen turn left at the Black Lion Talybont (or right if coming from Aberystwyth) and follow the narrow road up to Bontgoch for two miles. Turn left just before the telephone box turn and up the steep road with signs Ty'r Onen and Ty'r Derw. Moelgolomen is on the left after a mile.

W3W - ///surnames.dozed.village